**COFNODION A BENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

**Y CABINET**

**DYDD GWENER, 10 IONAWR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams (Caeirydd), D.Jones, E.V.Latham, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave a/ac L.Jones

**Swyddogion yn Bresennol:**

S.Phillips, A.Jarrett, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, H.Jones, A.Thomas, C.Furlow-Harris, S.Curran a/ac T.Davies

**Gwahoddedig**: Y Cynghorydd S Rahaman (Cadeirydd Craffu)

---

1. **PERIODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd C Clement-Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDD**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

Y Cynghorydd D Jones - Parthed: Cynllun Cydraddoldeb Strategol Drafft 2020-2024 - Amcanion Cydraddoldeb Drafft, gan ei bod yn aelod o Gymdeithas Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a Du Castell-nedd Port Talbot.

3. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor.

4. **<u>YMGYNGHORIAD AR GYLLIDEB DDRAFFT 2020/21</u>**

Esboniodd y Prif Weithredwr, oherwydd y cyhoeddwyd y setliad cyllidebol drafft gan Lywodraeth Cymru'n hwyr, y byddai’r cyfnod ymgynghori yn para am dair wythnos a hanner yn unig.

Gofynnodd aelodau am eglurhad ynghylch y geiriad ar gyfer SSHH 1002, a diwygiwyd hyn gan swyddogion, fel yr isod:

O (newidiwyd y testun ***teip italig trwm***):

| **Cyfeirnod** | **Disgrifiad** | **Prif Effeithiau** | **Cyllideb Net 2019/20** | **% yr arbedion** | **2020/21 £000** | **2021/22 £000** | **2022/23 £000** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SSHH 1002 | ***Adolygiad o becynnau gofal ar y cyd CNPT a CIC*** | CNPT i gyfrannu 50% o'r costau, heb gyfraniad y defnyddwyr gwasanaeth. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fydd yn talu'r gost ychwanegol. Bydd arbedion net yn dilyn er bod £80mil wedi’i wario ar gyngor cyfreithiol ac adennill dyledion. | 28,630 | 0% | 28 | 0 | 0 |

I (newidiwyd y testun ***teip italig trwm***):

| Cyfeirnod | Disgrifiad | Prif Effeithiau | Cyllideb Net 2019/20 | % yr arbedion | 2020/21 £000 | 2021/22 £000 | 2022/23 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SSHH 1002 | ***Cyfraniadau oddi wrth y Bwrdd Iechyd tuag at gost parhau i gynnig pecynnau gofal iechyd*** | CNPT i gyfrannu 50% o'r costau, heb gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fydd yn talu'r gost ychwanegol. Bydd arbedion net yn dilyn er bod £80mil wedi'i wario ar gyngor cyfreithiol ac adennill dyledion.<br>***Ni fydd unrhyw effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth unigol.*** | 28,630 | 0% | 28 | 0 | 0 |

**Penderfyniad:**

Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr ddiwygio geiriad y ddogfen ymgynghori (fel yr uchod) ac ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr arbedion cyllideb drafft, newidiadau i wasanaethau a chynigion incwm ychwanegol, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Dechrau ymgynghoriad ar gyllideb ddrafft 2020/21.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**Ymgynghoriad:**

Bydd yr eitem hon yn destun ymgynghoriad allanol.

5. **CYNLLYN CYDRADDOLDEB STRATEGOL DRAFFT 2020-2024 - AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL**

**Penderfyniad:**

1. Nodi'r gair 'parhau' lle bo angen yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 - Amcanion a Gweithredoedd Cydraddoldeb Drafft, er mwyn cydnabod y rhoddwyd ystyriaeth i amcanion penodol eisoes yn y cynllun blaenorol.

2. Rhoi awdurdod i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Prif Swyddog Digidol i ddechrau ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol (o 16 Ionawr tan 20 Chwefror 2020) ar yr amcanion cydraddoldeb drafft a'r gweithredoedd posib, fel y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Bodloni'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **LANSIAD PANEL Y DINASYDDION**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**